YSGOL BRO GWAUN

Cynllun gwerth £14.7 miliwn, wedi'i rannu'n dri cham, i gynnwys:

- **estyniad mawr i ddarparu lleoedd addysgu, cyfleusterau dysgu cymunedol a Chanolfan Adnoddau Dysgu ddwyieithog i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymhleth**
- **dymchwel mwyafrif y mannau addysgu presennol a chreu 4 man chwarae amlddefnydd**
- **gwaith cynnal a chadw ar yr adeiladau a gedwir.**

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Gyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru, bydd ystod oedran Ysgol Bro Gwaun yn cael ei gostwng o 11-18 oed i 11-16 oed o 1 Medi 2018 ymlaen.

Prif resymau'r cynllun a'i fanteision, oedd:

- i gynnal neu wella safonau addysgol i ddysgwyr, o ran eu cyflawniadau academaidd, y cynnydd y maent yn ei wneud, a chyfleoedd bywyd wrth iddynt symud ymlaen o fyd addysg i hyfforddiant a gwaith;

- i sicrhau model priodol ar gyfer darpariaeth ôl-16 er mwyn cyflawni safonau a deilliannau rhagorol i bob myfyriwr ar lefel ôl-16, ac i ehangu cyfleoedd bywyd wrth iddynt symud tuag at addysg bellach neu addysg uwch, gwaith a hyfforddiant;

- i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gefnogi ein dysgwyr mwyaf bregus yn fwy effeithiol. Mae'r ffaith bod y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar safle a rennir yn eu galluogi i weithio gyda staff prif ffrwd i ddarparu ystod ehangach o raglenni ymyrraeth benodol i gefnogi dysgu o fewn dosbarthiadau prif ffrwd;

- i fynd i'r afael â lleoedd dros ben ac yn rhannol â chyflwr ac addasrwydd yr adeilad;

- bod ysgol 11-16 yn rhoi ffocws clir ar gyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, yn enwedig ar y dangosyddion perfformiad allweddol fel Lefel 2 yn gynwysedig. Bydd yr ysgol yn gallu sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 yn anelu at lwyddiant ym Mlwyddyn 11;

- i ganolbwyntio ar ystod ddarpariaeth gulach a bydd yn cael effaith ar baratoi ar gyfer dysgu trwy gynllunio ac asesu;

- i roi mwy o hyblygrwydd i'r ysgol o ran sut caiff amserlenni eu trefnu yn dilyn lleihad mewn ymrwymiad dysgu Cyfnod Allweddol 5, a gall arwain at ysgolion yn gallu cynnig dewis ehangach o bynciau yng Nghyfnod Allweddol 4.

GWYBODAETH ALLWEDDOL	
LLEOLIAD	Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro, SA65 9DT
CATEGORI	Cymunedol
TREFNIADAU DERBYN	Mae Cyngor Sir Penfro yn parhau fel Awdurdod Derbyn Ysgol Bro Gwaun. Mae'r polisi derbyn a meini prawf y Cyngor yn berthnasol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw ac ni fydd modd dewis pwy fydd yn cael y ddarpariaeth ar sail nail ai gallu neu gymhwyster. Bydd disgyblion sy'n dymuno mynychu darpariaeth ôl-16 yn mynychu Coleg Sir Benfro neu Ysgol y Preseli (ar gyfer cyfrwng Cymraeg).
CAPASITI	525
RHIF DERBYN	105
YSTOD OEDRAN	11-16
CATEGORI IAITH	Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg – (defnyddir y ddwy iaith wrth addysgu, gydag 20-49% o bynciau'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai pob pwnc yn cael ei addysgu fel arfer trwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
TRAFNIDIAETH YSGOL	Mae'r trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor Sir.

GWYBODAETH ADEILADU

PENSAER: Stride Treglown

CONTRACTWR: BAM Construction

COST CYFALAF: £12.9 miliwn

MANYLEBAU'R ADEILADU: Mae'r ysgol wedi cael ei hailwampio, ei hailfodelu a'i huwchraddio'n helaeth, a bydd hyn yn arwain at le newydd ar gyfer darpariaeth ADY a meysydd arbenigol eraill.

Mae'r ysgol yn elwa ar fannau cymorth dysgu gwell, gan gynnwys canolfan i gynorthwyo myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, cyfleusterau astudio annibynnol i gynnwys cyfleusterau llyfrgell, dysgu mewn grwpiau bach a mannau ymneilltuo.